



Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru North Wales Fire and Rescue Service

SWYDD DDISGRIFIAD

TEITL Y SWYDD	Peiriannydd Systemau	CYFEIRNOD	A118
ADRAN	Adran TGCh	DYDDIAD	16/11/18
YN ATEBOL I	Dadansoddwr Systemau	GRADDFA GYFLOG	NWFS 6
LLEOLIAD	TGCh, Conwy	ORIAU'R WYTHNOS	37

PRIF DDIBEN Y SWYDD

Cynorthwyo'r Dadansoddwr Systemau i berfformio ei (d)dyletswyddau a chyfrifoldebau yn ymwneud â chefnogi systemau, datblygu a bod yn SPOC ar gyfer prosiectau GTAGC a thrydydd barfion, trwy ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth dechnegol.

Bod yn bwynt cyswllt cychwynnol i'r sefydliad ar gyfer gweinyddwyr, meddalwedd a datblygu prosiectau. Darparu dogfennau, cyfarwyddyd a chefnogaeth i gydweithwyr yn yr adran TGCh a'r gymuned defnyddwyr

Gweithio mewn amgylchedd heriol lle mae cywirdeb ac atebolrwydd yn hanfodol.

Cynorthwyo'r Tîm Datblygu gyda a gweithio tuag at arferion gorau'r cyfarwyddyd NCSC a darparu diogelwch technegol o safon uchel ar draws holl dechnolegau'r Gwasanaeth.

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1.	Sicrhau bod systemau, gosodiadau ac amgylchedd rhit y sefydliad yn gweithio'n iawn o ddydd i ddydd. Monitro perfformiad, tueddiadau a digwyddiadau. Cynghori ac argymhell gweithgareddau i'r Dadansoddwr Systemau TGCh ar faterion yn ymwneud â'r Systemau, Meddalwedd a chyfathrebiadau eraill.
2.	Cynorthwyo gyda gwaith gosod, adfer namau, atgyweirio ac ailddylunio'r gweinydder fferm ac isadeiledd rhwydwaith. Cwblhau gwaith cynnal a chadw sydd wedi ei gynllunio ymlaen llaw, addasiadau a gwaith cefnogi a phatsio ar yr holl weinyddwyr, dyfeisiadau cleient a ffeiliau.
3.	Cynorthwyo gydag ymchwil a gwaith datblygu'r rhwydwaith TGCh a thechnolegau telathrebu ac asesu eu heffaith a'u haddasrwydd ar gyfer amgylchedd y Gwasanaeth.
4.	Cefnogi'r tîmau TGCh eraill gyda materion yn ymwneud â systemau. Cydlynu gyda'r Gwasanaeth, darparwyr gwasanaeth/offfer trydydd parti ac awdurdodau cyhoeddus. Cynrychioli'r tîm technegol yn ystod cyfarfodydd.
5.	Helpu gyda manylion contractau a chwmpas prosiectau a chynnal cynlluniau. Adolygu a newid rhif trwyddedau a chynlluniau a prisiau i sicrhau gwerth gorau am arian.

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

6.	Cynhyrchu ystadegau ac adroddiadau; ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
7.	Rhannu gwybodaeth trwy gynhyrchu dogfennau, cyfarwyddyd ar lafar a hyfforddi cydweithwyr yn yr adran TGCh a'r gymuned defnyddwyr.
8.	Cynnal lefelau stoc digonol. Diweddarau a chynorthwyo gyda'r gwaith o archwilio'r gronfa ddata o asedau.
9.	Cymryd rhan mewn rota i gefnogi digwyddiadau critigol yn ystod oriau anghymdeithasol a phenwythnosau.
10.	Cynorthwyo'r fîm datblygu gyda phrosiectau a thasgau pan fydd angen i gwrdd â thargedau, amserlenni a darparu gwydnwch..
11.	Cyflawni dyletswyddau eraill fel bo'r angen i gwrdd â gofynion y Gwasanaeth.

CYFRIFOLDEBAU GORUCHWYLIO

Goruchwyllo cyflenwyr , contractwyr ac ymgynghorwyr sydd yn darparu nwyddau neu wasanaethau.

CYFRIFOLDEBAU ARIANNOL

Dim.

CYSWLLT Y TU ALLAN I'CH ADRAN

Holl staff GTAGC. Cymheiriaid mewn gwasanaethau tân eraill ac awdurdodau lleol, cyflenwyr a chontractwyr.
Y cyhoedd ar adegau.

GOFYNION IEITHYDDOL

Lefel 2 (i'w gyflawni cyn ddiwedd y cyfnod prawf) – Yn mynnu eich bod yn gallu;
Ddeall rhan helaeth o sgwrs yn y gwaith. Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â'r gwaith a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall atebion. Rhoi barn mewn modd cyfyngedig, cyn belled â bod y testun yn gyfarwydd. Deall cyfarwyddiadau pan fo iaith syml yn cael ei defnyddio.

ARCHWILIADAU CYFLOGAETH / GOFYNION ARBENNIG

Cliriad diogelwch NPPV Lefel 3.

HYFFORDDIANT GORFODOL

ITIL Rheoli Gwasanaethau.

ARALL

Gweithio Tu fewn gan amlaf. Efallai bydd yn rhaid i chi fynd i safleoedd eraill i wneud gwaith adfer. Gweithio o leoliadau diogelwch uwch.

GOFYNION PERSON

Asesu'r gofynion a chymwyseddu recriwtio

TEITL Y SWYDD

Peiriannydd Systemau

**CYMWYSTERAU/
GALLU/ PROFIAD**

HANFODOL Hebddynt ni ellir penodi'r unigolyn

- Gradd mewn pwnc perthnasol neu profiad cyfatebol.
- Profiad o ddefnyddio systemau gweithredu Microsoft a thechnolegau cysylltiedig, gan gynnwys Active Directory, Group Policy a Domain.

DYMUNOL Rhinweddau ychwanegol a fydd yn cael eu defnyddio wrth wahaniaethu rhwng ymgeiswyr sydd yn cwrdd â'r meini prawf allweddol

- Dealltwriaeth o fethodoleg ITIL.
- Dealltwriaeth o amgylcheddau isadeileddau corfforol a rhith.

SGILIAU

HANFODOL Hebddynt ni ellir penodi'r unigolyn

- Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun.
- Y gallu i weithio'n gyfrinachol ac yn onest.
- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol a hyfforddi neu addysgu eraill.
- Unigolyn brwdfrydig.
- Y gallu i gwblhau gwaith ar amser a gweithio dan bwysau.
- Sylw at fanylder.
- Sgiliau datrys problemau.
- Gallu gyrru a meddu ar drwydded yrru lawn.

DYMUNOL

Rhinweddau ychwanegol a fydd yn cael eu defnyddio wrth wahaniaethu rhwng ymgeiswyr sydd yn cwrdd â'r meini prawf allweddol

- Gallu gweithio oriau hyblyg
- Siaradwr Cymraeg.